# Gwasanaethau cartrefi gofal a gofal cartref

**Diffiniadau a chymhwysedd ar gyfer brechiad blynyddol rhag y ffliw**

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn rhoi disgrifiad o'r hyn sy'n gyfystyr â chartref gofal a gwasanaeth gofal cartref yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - Canllawiau Cofrestru[1].

### Gwasanaethau cartrefi gofal[1]

Mae gwasanaeth cartref gofal yn darparu llety, ynghyd â gofal nyrsio neu ofal personol, i unigolyn/unigolion oherwydd eu bod yn agored i niwed neu oherwydd eu hangen. Byddai'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gofal preswyl a gofal nyrsio i blant, oedolion neu'r ddau.

Nid yw gwasanaeth sy'n darparu llety a chymorth yn unig yn bodloni'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal. *Nid yw'n ofynnol i gynlluniau y cyfeirir atynt yn aml fel "byw â chymorth" neu "ofal ychwanegol" gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal, cyn belled â bod y gofal yn cael ei ddarparu o dan drefniadau cytundebol ar wahân i'r rhai ar gyfer tŷ'r person.* Fel arfer, darperir y gofal a roddir yn y lleoliadau hyn gan ddarparwr a fyddai wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gwasanaeth cymorth cartref.

Mae gweithwyr gofal a gyflogir i ofalu am bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal cofrestredig yn gymwys i gael brechiad blynyddol y ffliw os ydynt yn dod i gysylltiad rheolaidd â chleientiaid/preswylwyr. Mae hyn yn cynnwys cartrefi gofal i oedolion hŷn, oedolion iau a phlant. Mae'n cynnwys gwasanaethau llety diogel i blant ac ysgolion arbennig preswyl neu golegau sydd wedi'u cofrestru fel cartrefi gofal gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Gall gweithwyr cartrefi gofal cymwys gael brechiad ffliw y GIG am ddim yn eu fferyllfa gymunedol. Hefyd mewn rhai ardaloedd ar yr un pryd ag y mae timau brechu yn rhoi brechiadau i breswylwyr cartrefi gofal.

### Gwasanaethau cymorth cartref[2]

Mae gwasanaeth cymorth cartref yn cynnwys darparu (neu wneud trefniadau ar gyfer darparu) gofal a chymorth i bobl nad ydynt yn gallu eu darparu drostynt eu hunain oherwydd eu bod yn agored i niwed neu oherwydd eu hangen ac maent yn cael eu darparu i'r person yn ei gartref ei hun, yn ogystal â Byw â Chymorth a Gofal Ychwanegol. **Nid yw hyn yn cynnwys** yr angen am ofal a chymorth sy'n codi oherwydd oedran ifanc person yn unig.

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref nodi'r ardal ddaearyddol y maent yn bwriadu darparu'r gwasanaeth ynddi pan fyddant yn gwneud cais i gofrestru. Mae'r ardaloedd daearyddol hyn yn dilyn patrwm y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (sy'n cyd-fynd â phatrwm y Byrddau Iechyd).

Mae gofalwyr cartref yn gymwys i gael brechiad ffliw y GIG am ddim yn eu fferyllfa gymunedol.

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

[1] https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2020-02/200131-risca2016-reg-guidance-en.pdf - tudalennau 6 i 9
[2] https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2020-02/200131-risca2016-reg-guidance-en.pdf - tudalennau 10 i 12

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Care homes and domiciliary care services

## Definitions and eligibility for annual flu vaccination

Care Inspectorate Wales (CIW) provide a description of what constitutes a care home and domiciliary care service in their Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 - Registration Guidance[1].

### Care home services[3]

A care home service provides accommodation, together with nursing or personal care, to an individual(s) because of their vulnerability or need. These services would include residential care and nursing care for children, adults or both.

A service providing accommodation and support only, does not meet the definition of a care home service. *Schemes often referred to as "supported living" or "extra care", are not required to register as a care home service, as long as the care is provided under separate contractual arrangements to those for the person's housing*. The care provided in these settings is usually by a provider that would be registered with Care Inspectorate Wales as a domiciliary support service.

Care workers employed to care for people living in registered care homes are eligible for an annual flu vaccination if they have regular contact with clients/residents. This includes care homes for older adults, younger adults and children. It includes secure accommodation services for children and residential special schools or colleges registered as care homes with Care Inspectorate Wales.

Eligible care home workers can get their free NHS flu vaccine at a community pharmacy. Also in some areas at the same time that vaccination teams deliver vaccinations to care home residents.

### Domiciliary support services[4]

A domiciliary support service consists of the provision (or making arrangements for the provision) of care and support to people who are unable to provide it for themselves because of their vulnerability or need and is provided to the person in their own home, plus Supported Living and Extra Care. This **does not include** the need for care and support which arises solely because of a person's young age.

Domiciliary support service providers must indicate the geographical area in which they intend to provide the service when they apply to register. These geographical areas follow the Regional Partnership Board footprints (aligned with Health Board footprints).

Domiciliary carers are eligible for a free NHS flu vaccination at their community pharmacy.

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

[1] https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2020-02/200131-risca2016-reg-guidance-en.pdf - pages 6 to 9
[2] https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2020-02/200131-risca2016-reg-guidance-en.pdf - pages 10 to12